

CADER IDRIS

Crib trawiadol Cader Idris sy'n sefyll allan, yn ymestyn i lawr yn raddol at y môr; gyda chrib hir arall, ychydig i'r De, yn arwain i fyny at gopa Tarren Hendre ac yn parhau i'r Gogledd Ddwyrain tuag at yr Aran. Hefyd, mae'r brynau uwchben Corris a Llanwrin, a elwir weithiau yn Goedwig Dyfi, yn y rhestr. Ceir sawl bryn gydag enw ffermydd ond nid yw pob un yn y rhestr oherwydd nad ydynt yn enwau mynyddig.

Cader Idris 893m SH 711131

Mae'r ddadl ynglyn a defnydd y gair *cadair* a'r term gosodol Brythoneg **cader* wedi parhau ers blynyddoedd. Ar un adeg fe dderbyniwyd rhai bod yna ffurf **cader* neu **cater* 'amddiffynfa' yn bresennol yn y tirwedd; yn gysylltiedig â'r Hen Wyddeleg *cathir* 'amddiffynfa, caer', Gwyddeleg Canol *cathair* 'caer maen'. Yn ddiweddarach, datganwyd nad oedd cysylltiad ieithyddol o'r fath, ymresymwyd bod cader yn yr enwau yn ffurfiad llygredig ac yn lle hynny bod *cadair* 'sedd, gorsedd'; o'r Lladin *cathedra* 'sedd, gorsedd', oedd y gair cywir.

Dywedwyd yn gyffredinol hefyd mai ffurf dafodiaith leol yn unig y gair *cadair* 'sedd' oedd y ffurf **cader*, er bod y ffurf 'amrywiol' **cader* yn cael ei defnyddio'n gyffredin ledled Cymru [cyn newid/cywiro'(?)] y mwyafrif o'r sillafiadau e.e. Mynydd y Gader, Brycheiniog; Cader, Dinbych; Pencader, Caerfyrddin]. Yn ddiweddarach fe atodwyd yr ystyron ychwanegol 'caer, cadarnle' [ac yn hwyrach 'anheddiad'] i'r gair *cadair* yn y geiriaduron. Diflannodd yr ystyr *cader* 'cadarnle' yn y geiriaduron cynnar.

Elfen y gellid ei chanfod mewn nifer o enwau mynyddig yn ogystal â lleoliadau lle'r oedd safleoedd amddiffynnol caregog i'w cael; neu, roeddent yn atgoffa rhywun o amddiffynfeydd o'r fath. Mae'r Wyddeleg *cathair* 'caer cerrig' fel arfer yn ei Seisnigeiddio fel caher. Fe welir cathair/caher mewn llawer lleoliad yn ardal Connaught a Munster; e.e. mae enw'r mynydd Caherconree yn deillio o *Cathair Conraoi* h.y. 'caer gerrig Cú Roi'. Yn Nwyrain yr Alban, hyd yn oed cyn belled i'r gogledd â Swydd Aberdeen, mae un yn canfod ffurfiau *Cadder* a *Catter* yn ogystal â ffurfiau *cathair* Gaeleg e.e. Kathermothel o *Cathair Mhaothail* 'Caer Muthil'.

Term ffigurol yw'r defnydd y gair *cader* yn yr enw Cader Idris - nid oes amddiffynfa ar y copa. Ond, mae nifer o fryniau gyda'r gair cader yn ei enwau gyda safleoedd amddiffynnol yn gysylltiedig â hwy. Bryngaer Caer Olau ar Cader Ifan Goch, Conwy: hefyd, bryngaer penrhyn o'r Oes Haearn (uwch yr ysgol) Pencader, Caerfyrddin, i enwi dau.

Mae rhai yn methu gweld sut bod y gair benthycadair, o'r Lladin *cathedra*, wedi cael ei dderbyn fel term ar gyfer nodwedd ddirweddol statws uchel oni bai'r bod yna air tebyg, er gwahanol ei ystyr, yno eisoes. Rhaid cofio hefyd nad oedd y milwyr a oedd yn gorfodi rheolaeth Rufeinig ym Mrhydainyn yn siaradwyr Lladin cywir, er enghraifft amddiffynnwyd Segontium gyda lleng o filwyr o Germania 'Geltaidd' (h.y. Gwlad Belg).

Cadeir: 'A chair, a throne'. This is generally taken to be present in the place-names listed below, though a number of problems remain. It seems surprising that a word adopted into 'high-status' British Latin and Brittonic should have been taken up quickly as a term for naming hills or other landscape features, The Brittonic Language in the Old North (2017) AG James [Scottish Place-name Society Website].

Mae Idris yn enw personol, ond yn hytrach na chawr chwedlonol, mae'r llawer yn credu mai Idris ap Gwyddno, Brenin Meirionnydd oedd. O bob tebyg, fe bu farw c.632 ar lannau'r Hafren mewn brwydr yn erbyn Oswald Brenin Northumbria. Pen y Gadair yw enw'r copa yn unig; ond yn lleol, Y Cynr yw'r enw ar y nodwedd carregog sy'n ffurfio'r copa pigfain; *curn*, *cyrn* 'pentwr, crug, carnedd; côn, pyramid, tŵr pigfain; mwdwl'. Cader ydris 1573 Humphrey Llwyd Cambriae Typus,

Caddorydrick hill 1579 Saxton, Cadeir Idris 1586 William Camden, Caddorydrick Hill 1610 Speed, Caddorydrik hill 1645, Kader Idris 1646 map Willem Janz, Kader Idris c.1700 Parochialia.

Rhaid nodi hefyd: '**Cader**, a castle, fortress, or any strong-hold, a strong fortified place; as Cader Idris, Cader Ddinmael, Cader Facsen. Hebrew Geder 'a fence, stronghold' [Unde Gades Hispaniae oppidum a Phoenicibus conditum, + Gadir vocatum] Arab. Gadir 'a fence.' Antiquae linguae Britannicae (1753). Y cyfieithiad o'r Lladin yw: 'Felly Gades, tref yn Sbaen a sefydlwyd gan y Phoeniciaid, ac a elwir yn Gadir'. Mae hyn yn cyfeirio at Cadiz heddiw, enw a oedd yn deillio o'r Lladin *Gades* (Groeg Gadeira); mae'r enw Gades/Cadiz yn deillio o'r Phoeniciaid *gadir* 'caer, lloc' ac fe'i cysylltir â'r nifer o enwau lleoedd o'r ffurf Agadir.

Mynydd Moel 855m SH 727136

Yn aml, gellir dehongli *moel* fel mynydd sydd yn 'noeth' neu un sy'n 'grwn'; mae'r llethrau deheuol yn noeth ac yn go grwn eu ffurf. Ond, wrth edrych o'r Gogledd, mae'r tebygrwydd yn agosach i ffurf pigfain pyramidaidd; felly, y mynydd sydd yn un *moel* 'copog, piramidaidd'. Mae carnedd ar y copa, tua 20m mewn diamedr, ac mae ganddo darddiad cyn-hanesyddol o ddyddiad anhysbys. Y Mynydd Moel c.1700 Parochialia.

Cyfrwy 807m SH 703132

Mae'r gair *cyfrwy* 'gobell, sedd ar gefn ceffyl', sydd yn gyfystyr a Llydaweg *kevre*, Hen Wyddeleg *cymrech*, yn cyfeirio at y *pant* yn y brig i'r Gorllewin o Gader Idris. Mae'r ddau fynydd yn ffurfio'r cyfrwy. Yng nghyfreithiau Cymru yn y 13eg ganrif, ceir y sillafiad *kefrwy* 'cyfrwy', sy'n debyg iawn i'r ffurf Lydaweg. Cyfrwy 1783 Thomas Pennant, Cyfrwy 1837 AO.

Mynydd Pencoed 791m SH 711121

Anodd penderfynu pa ffordd mae'r enw wedi symud; enw fferm Pencoed wedi teithio i fyny'r bryn i ddynodi copa'r mynydd tybed. Nid oes coedwigoedd mawr ar waelodion y mynydd rŵan. Yr enw arall yw Daear Mawr sy'n rhoi ymdeimlad o ardal agored. Mynydd Pencoed yw'r enw a gysylltir â'r mynydd heddiw; fodd bynnag, mae'n bosibl bod enw clogwyn Twr Maen hefyd yn gysylltiedig â'r uchafbwynt ar un adeg. Mynydd Pen 'coed 1837 AO.

Top Tritiryn 766m SH 705118

Enw lleol gweddol ddiweddar i'r top 'copa', ble mae tri + tiryn [bachigyn y gair *tir* 'eiddo']; copa syn safle ble mae ffin tair fferm yn cyfarfod. Nid yw'r enw ar y mapiau AO presennol.

Mynydd Gwerngraig 683m SH 744141

Wedi'i enwi ar ôl y fferm, sydd wedi codi ei enw o enw'r grib greigiog sy'n ymestyn o'r mynydd i lawr i'r *wern* 'cors'. Roedd coed gwern yn bren pwysig ar un adeg, gan mai dyma'r pren a ddefnyddir i wneud clocsiau a chafodd llawer iawn o'r pren ei gludo i'r dinasoedd diwydiannol ar gyfer cynhyrchu clocsiau gan mai dim ond mewn ardaloedd llaith gorllewinol y mae'r goeden yn tyfu'n dda. Gau Graig, gyda'r ddau derm yn estynedig, *cau* 'caeedig' + *craig* 'clog'; yn cyfeirio at y cwm cul yn uchel i fyny ar un ochr i'r grib amlwg, a elwir hefyd yn Twll y Gwter. Fodd bynnag, mae un yn gweld Gau Graig fel yr enw ar y crib mynyddol ar fapiau 1830-80 6" yr AO.

Maesglase 674m SH 823152

Maesglasfre oedd enw'r fferm gyfagos yn wreiddiol; *maes* 'tir agored' + *glas* 'llwyd' + bre 'bryn, ucheldir'; ond Maen Du ar yr hen fapiau. Maesglasiure 1425, maes y glasseie 1570 Llawysgrifau Pant yr Aur.

Waun Oer 670m SH 785147

Gwaun 'tir corsiog uchel, rhostir' + *oer* 'agored, gwyntog'; enw da ar gyfer ardal agored o borfa fynydd garw. Cymherer *Gwaun* 'uwchdir, rhostir', Hen Gymraeg *guoun* i'r Cernyweg *goon*,

Llydaweg *geun*.

Craig Rhiw Erch 670m SH 817150

Craig gyda *rhiw* 'allt' + *erch* 'brith, tywyll'; neu, *erch* 'erchyll, dychrynlyd'. Fe all y ddwy ffurf o'r elfen *erch* fod yn gysylltiedig ar fan.

Tarren y Gesail 666m SH 711059

Defnyddiwyd y gair *tarren* i ddisgrifio nifer o elfennau yn y dirwedd; gall ddynodi 'bryncyn, bryn serth, sgarp, bryn creigiog, craig, clogwyn'. Hefyd, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer 'twyn tywod, darn o dir gwael mewn rhai ardaloedd yn Ne Cymru. Mae'r gair *cesail* 'cil, twll, cilfach' yn cyfeirio at ddyffryn dwfn ar ochr mynydd a hyd yn oed ogof mewn rhai llefydd. Yma mae'n debyg ei fod yn cyfeirio at gwm dwfn Nant y Darren. Tarren y gessell 1591, Aran y Gesail 1796 Cambrian Register, tra mai Arran y Gessel yw'r enw ar y grib hir i gyd, Tarren Hendre ar fap Greenwood 1834.

Mae'r enw ar y mynydd wedi symud i ffwrdd i'r gogledd ddwyrain ar rai rhifynnau o fapiau modern yr AO. Yr enw arall *welir* ar fap ordnans 1837, ac yr enw gwreiddiol o bob tebyg, i'w Y Briddell-arw; sef *briddell* 'talp caled o bridd' + (*g*)*arw* 'bras', neu hyd yn oed 'mawn'.

Craig Las 661m SH 677135

Enwir y mynydd ar ôl y clogwyn tywyll ar ei ochr ogleddol, clogwyn cysgodol sy'n (*g*)*las* 'llwyd'. Hefyd mae'r enw Tyrrau Mawr ar rai o'r mapiau; ond y tebygrwydd yw mai nad *tyrrau* 'pentwr' ond llygriad y term *tyr(i)au*; lluosog y gair *tŵr*, gan gyfeirio at yr asennau uchel sy'n ffurfio'r clogwyn. Mae yna lwybr serth, sef Llwybr Cam Rhedynen yn codi'n igam-ogam i'r bwlch ychydig i'r Dwyrain; nid ydyw'n ffordd Rufeinig fel a dynodi'r ar fap AO cynnar.

Cribin Fawr 659m SH 795153

Dyma'r enw agosaf at y copa. Gall *cribin* ddynodi 'crib, sgarp' yn y dirwedd; yn wir mae clogwyn neu sgarp amlwg i'w gael. Ar hen fapiau'r AO 6", roedd yr enw yn llawer agosach at y copa. Ygribin Fawr 1834 Map Greenwood.

Tarren Hendre 633m SH 683042

Yr enw gwreiddiol oedd Trum Tair Tarren, mae'r *trum* 'cefn, cefnen' yn amlwg, y tair tarren oedd Tarren Hendre, Tarren Cwm Ewin a Tharren Rhosfarch. Gyda *tarren* 'bryncyn, bryn serth, llethr serth, bryn creigiog, clogwyn', yn yr ardal clogwyn yw'r ystyr *tebygol*. Tarren Hendre yw'r clogwyn ychydig i'r Gogledd o'r copa; un sydd wedi ei enwi ar ôl yr hen fferm Hendrewallog. I'r rhai a oedd yn gweithio yn y chwarel, Tarren Hendre oedd yr enw ar y rhan yna o'r mynydd. Tarren Rhosfarch sydd i'r De, tra bo Tarren Cwm Ewin (687040) heb unrhyw enw ar y mapiau modern. *Hendre* 'trigfan sefydlog', Cernyweg *hendra*; defnyddir y term hen ar gyfer lleoliad sydd wedi'i glirio ar gyfer amaethyddiaeth neu anheddiad yn gynnar. Mae tri chrug crwn mawr Oes yr Efydd ar y copa, yn rhoi argraff oleo liad pwysig yn y gorffennol.

Twll yr Ogof 622m SH 659114

Yma, *twll* 'agoriad' + *yr* + *ogof* 'twll tanddaearol'; nodwch bo'r gair *twll*, Cymraeg Canol *tull* 'twll, a *ogof* 'agen, ceudod' weithiau yn dynodi ffurf sy'n agosach at geunant dwfn.

Carnedd Lwyd 616m SH 684135

Clogwyn yw'r garnedd, Cernyweg *carneth* 'pentwr o greigiau', gydag agwedd cysgodol tywyll, yn 'llwyd'. Mae'n debyg bod yr enw cyfagos Tyrrau Mawr yn cyfeirio at yr asennau fertigol amlwg ar lethrau'r gogleddol y mynydd.

Craig Portas 605m SH 802141

Y graig yn yr enw yw'r clogwyn amlwg yn agos i'r copa; ond mae'r gyfres gyntaf map AO 1837 yn dangos yr enw yn syml fel Portas yn unig ac ar y mynydd yn hytrach nag fel enw clogwyn. Tybed

os oes cysylltiad gyda portas, portais 'llyfr gwasanaeth cludadwy', llyfr a ddefnyddir yn yr Oesoedd Canol; oherwydd tebygrwydd ffurf y clogwyn i lyfr agored. Y dewis arall yw bod yna ffurf llygredig y gair portis 'drws, bwlch, porth'; yn deillio o'r Lladin *porta* 'adwy, drws' neu'r Saesneg Canol *port(e)* 'adwy'; geiriau sy'n dynodi un neu fwy o fylchau drwy'r brynau yn yr ardal. Ar un adeg yr oedd rhai llwybrau ar hyd y gefnen yn galluogi symudiad anifeiliaid [o'r De i'r Gogledd (ac yn ôl)] heb orfod defnyddio Bwlch yr Oerddrws. Dylor nodi mai Bwlch y Cefn oedd hen enw beth sydd nawr ar y mapiau fel Mynydd Gartheiniog, yn 812130. AO Portas 1837.

Mynydd Ceiswyn 605m SH 773139

Tir mynydd y fferm Ceiswyn, a oedd berchen y tir ar un adeg; Mwdwl Eithin oedd yr hen enw. *Mwdwl* 'twmpath, tas, pentwr' + *eithin* 'planhigyn bythwyrdd tir garw', weithiau fel coelcerth; ond, gall yr enw ddynodi bryn ble roedd ffurf y mynydd yn atgoffaol o dwmpath. Ar un adeg, os oedd angen anfon arwydd yn gyflym yr oeddynt yn creu pentyrrau eithin mewn mannau amlwg, i'w oleuo mewn cyfnod o argyfwng. Defnyddiwyd eithin oherwydd ei fod yn hawdd ei osod golau, hyd yn oed mewn tywydd gwlyb.

Mawnogydd Duon 597m SH 729073

Dyma gopa Dwyreiniol cefnen hir Tarren Gesail, nid oes enw arall ar y copa ar y mapiau cynnar; ond mae'r enw Mynydd Braich Goch wedi crwydro'n agosach dros y blynyddoedd. Lluosog y gair *mawnog* 'cors fawn' + *duon* 'du, tywyll'. Tarren Cadian oedd enw arall yn ar y bryn yn y map cyfres cyntaf yr AO yn 1837. Mawnogydd Duon 1837 AO.

Mynydd Dolgoed 576m SH 797137

Porfa mynydd y fferm, Dolgoed [dol 'porfa' + coed 'coetir'].

Y Graig Goch 574m SH 715085

Er ei fod yn cael ei alw'n syml Y Graig Goch, nodwedd y llus a'r rhedyn ar ei lethrau yw'r cyfeiriad at y lliw yn hytrach na'r creigiau. Sgarp trawiadol sydd, ar un adeg ar ôl Oes yr Ia fe gwmpodd màs enfawr o'r mynydd i lawr i'r dyffryn islaw, gan greu llyn rhuban Llyn Myngul. Mae'r llyn bellach yn llawer is nag y byddai wedi bod. Y graig Koch c.1700 Parochialia.

Boncyn Tyddyn Du 560m SH 726144

Boncyn, bachigyn y gair *bonc* 'bryn bychan' + fferm Tyddyn Du.

Tap Llwyd 550m SH 720065

Heblaw'r defnydd cyffredinol y gair *tap* 'craig sy'n taflu dros ei throed. Gordo' mae yn cael ei ddefnyddio mewn rhai mannau i ddisgrifio creigiau uwch llethr serth. O'r Saesneg *tap* 'copa', ffurf amrywiol ar y gair *top*? Mae'r enw ar yr hen fap AO 6" 1887, ac yn rhan o gefnen hir Tarren y Gesail.

Pen y Graien 550m SH 659023

Dyma'r enw ar y map AO cynnar 1837; mae graien yn ffurf lygredig leol ar *graien* 'graeen, gro'. Tarren Cwm-ffernol ar y mapiau Ordnans presennol, hefyd, yr enw ar y clogwyn ar flaen y dyffryn, a'r fferm.

Braich Ddu 546m SH 645121

Braich 'trum, crib', gair a fenthycwyd (o bob tebyg) o'r Lladin *bracchium* 'braich, rhywbeth sy'n ymestyn allan' + *du* 'tywyll'. Rhoddwyd llawer o eiriau yn Gymraeg, yn ogystal ac mewn ieithoedd eraill, ar un adeg fel geiriau benthyg Lladin, efallai na fyddant yn cael eu hystyried felly heddiw.

Mwdwl Eithin 545m SH 745109

Mae'r *mwdwl* 'pentwr' + *eithin* yn derm eithaf cyffredin yng Nghymru am fryn gyda ffurf fel tas. Er

mwyn gwella'r tir, byddai'r eithin wedi'i dorri a'i glirio i domen a'i losgi, yna byddai'r lludw yn ymledu dros y ddaear i wella ffrwythlondeb. Mae enwau eraill hefyd, mae Mynydd Dol-ffanog a Mynydd Hafotty yn cyfeirio at ffermydd isod; mae Ceiswyn yn fferm ychydig ymhellach i ffwrdd. Fodd bynnag, ar hen fapiau'r AO 6^o cynnar, a map 1837 mae un yn dod o hyd i Gallt Ystrad Gwyn. Pen y mwdwl eithin yn ystrad gwyn c.1700 Parochialia.

Trum Gelli 535m SH 656016

Wedi'i nodi fel AO Trum 'Gelli 1837, mae'r collnod yn dangos bod y fannod 'y' wedi diflannu ond mae'r treigliad yn parhau. *Trum* 'cefn, cefnen' + *celli* 'llwyn, coedwig'

Mynydd Cedris 530m SH 708081

Fe geir Cedris fel enw fferm, yn (689082), ond mae rhai wedi cynnig yr enw fel enw personol Cedris neu Cedrys; llygriad ar Gader Idris i eraill? Gwelir Cedris mewn nifer o safleoedd yn yr ardal, yn wreiddiol o'r hen dyddyn. Ond rhaid nodi'r cofnod r. Cedris yn 1763, ble mae'r r. yn cyfeirio at afon tybed. t. Kedris c.1700 Parochialia, Bwlch Cedris & Pont Cedris 1733. Yr enw cyntaf i'r mynydd ar y mapiau AO oedd Cern Cedris 1837.

Mynydd Ty Glas 526m SH 722085

Ty Glas yw'r enw'r tyddyn/ferm islaw; *ty* 'anheddfan' + *glas* 'llwyd' sydd.

Mynydd y Gader 517m SH 715152

Mynydd 'uwchdir' + *y* + *cader* 'amddiffynfa'; nid yw enw'r bryn ar fapiau cyfoes yr AO, ond dyma ei enw ar fap 1837. Yn y blwyddnodion, bu farw Idris ap Gwyddno, Brenin Meirionnydd yn y 7fed Ganrif drwy dagiad yn hytrach na mewn brwydr yn erbyn Oswald. Yn ôl yr Annales Cambriae mae'n debyg iddo farw naill ai trwy dagu neu drwy dorri ei wddf ac nid mewn brwydr yn erbyn Oswald. Oedd *cader* ('kadr') 'amddiffynfa, fryngaer' Idris ar y copaon yma? Safle anghysbell braidd; hefyd, rhaid nodi'r amddiffynfeydd eraill sydd yn agos, sef Craig y Castell 280m SH 693173 & Craig y Castell 252m SH 695157.

Moel y Geifr 515m SH 716051

Yr oedd geifr yn gyffredin ar un adeg, lluosog y gair gafr, sydd yn gysylltiedig â'r Llydaweg *gavr*, *gaor*, Hen Lydaweg *gabr*, Hen Wyddeleg *gabor*. Mae'r enw bellach gryn bellter i ffwrdd ar fapiau cyfoes. Hefyd, ar fapiau'r AO 6^o cynnar, Moel y Geifr sydd, ond Foel y Geifr ar fapiau'r AO presennol.

Mynydd Fron Fraith 514m SH 747117

Enw sydd yn cyfeirio at wahaniaethau mewn llystyfiant a chreigiau y *bron* 'brig, crib'; un sydd yn ymddangos llethrau *braith*, sef ffurf fenywaidd y gair *brith* 'amryliw' [yn ei ffurf dreigluedig].

Pen Trum Gwr 511m SH 651029

Mae'r gair *trum* 'cefnen' yn gysylltiedig â Hen Gymraeg *drum*; Cernyweg *trum*; Gwyddeleg *druimm* 'cefnen, tyle' mynydd'. Fe all y gair ddisgrifio bryncyn, bryn neu gefnen, braich yn ymestyn allan o'r mynydd. Tra bo *cwr* 'rhan sy'n meinhaus, terfynu mewn pwynt'; yn enw addas ar y trum.

Moel Cwm yr Eglwys 508m SH 827157

Craig Buarth Glas yw enw'r clogwyn ac enw arall ar y bryn.

Crach Fynydd 508m SH 769127

Crach 'cramennog, darn o dir gwael'; y tebygrwydd yw bo'r enw'r mynydd wedi mudo i lawr at fferm Crach Fynydd.

Godre Fynydd 508m SH 756097

Godre 'rhan gwaelod mynydd neu bryn'; neu, 'ffin, ymyl' gyda'r synnwyr ffigurol o ardal anghysbell, yn hytrach na bryn *go(r)* 'uwchben' + *dre* 'anheddiad'. Mae enw arall ar y bryn i'w weld ar hen fapiau'r AO 6 "fel Y Garnedd Wen. *Godre* Vynyddh c.1700 Parochialia.

Mynydd Rugog 504m SH 728093

Rugog yw enw'r ffarm, yn (733097). Mae'r term yn ffurf estynedig o'r gair *grugog* 'llawn grug' + *-og* 'tebygrwydd i, cysylltiad â'. Ysgrifennwyd fel Mynydd Rigog ar fapiau'r AO 6" cynnar, y ffurf Rigog yn unig ar fap ordnans 1837. Rugog Fawr c.1700 Parochialia. Mae'n bosibl mai ar ôl y clogwyn ar hyd ei ystlys ogleddol y cafodd y bryn ei henwi'n wreiddiol, sef Craig Goch. Fodd bynnag, mae'n debyg bod y 'mynydd' h.y. porfa'r ucheldir wedi'i enwi ar ôl y fferm Rugog (yn 733097), fel y mae llawer o'r ucheldiroedd yn yr ardal benodol hon, byddai hyn yn caniatáu dehongliad amgen. Yn lleol, dehonglir yr enw fel Rhygog, man lle tyfir rhyg 'ÿd gwydn'.

Trawsfynydd 493m SH 641109

Y disgrifydd yn yr enw yw'r gair *traws* 'croesi, ar draws, trwy', yn rhoi synnwyr o fynd drwy neu ar draws ardal mynyddig. Mae'r bryn i'w weld uwch y llwybr hynafol Y Ffordd Ddu, sy'n dilyn llwybr yn gwehyddu trwy'r mynyddoedd yn rhwydd ac yn cadw draw o'r llethrau arfordirol serth.

Bryn Llwyd 486m SH 729073

Bryn 'bryncyn' + *llwyd* 'cysgodol, tywyll', fe welir yr enw Mynydd Braich Goch hefyd.

Mynydd Braich Goch 486m SH 729073

Mynydd Braich Goch yw'r enw presennol, ond yr enw a welir ar map cyfres cyntaf yr AO yn 1837 Cloddfa'r Geuwern.

Moel Dinas 478m SH 842143

Uwch Dinas Mawddwy, wedi ei gofnodi fel Foel Dinas ar fapiau AO presennol. Nid yw'r archeolegwyr wedi darganfod unrhyw hoel o ddinas 'caer' ar y bryn. Ond oherwydd y llethrau serth sy'n bron yn cylchu'r bryn mae yn safle da i gadw anifeiliaid mewn llociau gwrych yn ystod cyfnodau o ofid.

Mynydd Rhyd-galed 475m SH 703041

Mynydd 'porfa uwchdir' y fferm Rhyd Galed; *rhyd* 'croesfan afon' + *caled* 'anodd, cryf, garw' ac mae'n debyg ei fod yn cyfeirio at fan croesi gyda llyf drwg ar un o'r afonydd neu'r nentydd gerllaw.

Mynydd Llwydiarth 470m SH 792127

A'i hwn oedd y Moel Llwydiarth a enwid fel rhan o'r ffin daliad tir yr Abaty. Moyllywydyath 1209 Siarter Cymer.

Mynydd Cwmcelli 469m SH 804099

Cwmcelli oedd enw'r fferm fechan ar lethrau'r bryn; *cwm* 'dyffryn' + *celli* 'llwyni'. Yr oedd yr enw yn ymhellach i'r dwyrain ar un adeg. Cumkelly 1209 Cymer, Ffridd Cwm Celli 1837 AO.

Mynydd Pennant 463m SH 665105

Pen 'copa, diwedd, blaen' + *nant* 'dyffryn'. Bryn arall a enwir ar ôl y fferm, neu y plwyf; enw'r plwyf yw Llanfihangel y Pennant. Yn lleol Ffridd Newydd yw enw'r mynydd.

Pen y Garn 458m SH 626108

Gall y term *carn* 'tomen o gerrig' nodi mwy na nodwedd a wnaed gan ddyn fel carnedd. Yn y dirwedd gall y term gyfeirio at ben creigiog, bryn wedi'i orchuddio â chraig neu nodweddion sgri neu hyd yn oed fynydd siâp carnedd. Mae'r gair *carn* yn gyfatebol i'r Llydaweg *karn*; Cernyweg *karn*; Gwyddeleg *carn* 'twr o gerrig' a'r Lladin *cornu* 'corn'. Pen y Crug oedd yr enw arall ar y fan

a'r lle ar fapiau cynnar yr AO; *crug* 'bryncyn, cnwc; carnedd'. Mae yna hen biler triongli ar ben carnedd hynafol mae'n debyg. Pengarn 1837 AO.

Moel Grochan 450m SH 769107

Nid yw'r chwareli o bwys i'r enw fel *crochan* 'llestr'. Oherwydd, nodwyd yr enw fel Moel Grychan yn Archif Melville Richards ac yn yr un archif fe geir y ffurf Kraig Mael grychan c.1700 Parochialia. Felly cysylltiad â'r gair *crych* 'rhychlyd, garw' sydd o bob tebyg; oherwydd yr ardaloedd creigiog ar y llechweddau.

Y Foel Ddu 448m SH 697095

Moel 'bryn' sy'n dywyll ei wedd, oherwydd y creigiau neu llechweddi cysgodol.

Cwr Bach 443m SH 647033

Yr enw ar fap yr Arolwg yn 1837 oedd Tarren y Barcut 'clogwyn y boncath', enw a welir heddiw ychydig i'r Gogledd o'r copa. Cwr Fach oedd yr enw ar fap 1887, sef *cwr* 'rhan sy'n terfynu mewn pwynt' yn hytrach na *gŵr* 'dyn, person'. Nid yw'r Gŵr Bach a welir ar fapiau cyfoes yr AO yn gywir.

Mynydd y Tri Arglwydd 442m SH 813094

Ardal ble roedd ffiniau tiriogaethau'r tri arglwydd yn cyfarfod. Nid oedd arglwyddiaethau'r oesoedd canol cynnar o reidrwydd yn cael eu rheoli gan gymwynasgarwch.

Esgair Berfa 430m 637095

Mae'r *esgair* 'cefn, cefnen' yn gysylltiedig â'r Llydaweg *esker*, Hen Gernyweg *escher*, Gwyddeleg Canol *escir*. Enw sydd yn disgrifio *trum neu gefnen* hir o fynydd yn debyg i fraich, fel sydd yn y man. Ni ddylid derbyn y gair *berfa* 'whilber' fel esboniad i'r enw. Wrth edrych ar y ffurflenni cynharach mae rhywun yn gweld bod yr enw'n adlewyrchu'r ffaith bod y brig yn cael ei leoli yng nghanol neu ei amgylchynu gan fryniau eraill trwy ddefnyddio'r term *perfedd* 'canol, yng nghanol'. Esgair berveth 1576/7 Llawysgrifau Maesyneuadd, Esger berveth 1632 a Esker perfedd 1650/1 Llawysgrifau Peniarth, Esgair Berfa 1837 AO.

Craig y Gamell 424m SH 850133

Fei enwid ar ôl yr afonig Nant y Gamell. Craig-'gamell 1836 AO.

Y Fedw Lwyd 424m SH 805094

Gall y gair *bedw* 'birch' ddynodi llwyn neu ardal o goed bedw. Bedw Lwyd c.1700 Parochialia, Y Fedw-lwyd 1838 AO. Fedw-lwyd sydd ar y mapiau AO cyfoes.

Bwlch y Cefn 410m SH 812129

Bwlch y Cefn oedd yr hen enw ar y bryn ar fapiau cynnar, Mynydd Gartheiniog sydd yna nawr, wedi codi o'r fferm Gartheiniog.

Mynydd Ty'n y Fach 409m SH 688097

Wedi ei enwi ar ôl y fferm Ty'n y Fach 1837 AO, sef porfa fynydd y fferm, bach sy'n gysylltiedig â *bach* 'cam, bachog, enciliol' yn hytrach na *bach* 'maint lleiaf'. Mynydd Nant yr Eira yw'r enw lleol, enw a godwyd o fferm a nant i'r De.

Tarren Cadian 408m SH 745069

Y tebygrwydd yw mai enw personol sydd, gyda Cadien fel ffurf dafodieithol leol ar yr enw Cadian. Fe welir Nant Cadian a Chwm Cadian islaw. Cwmcadyen 1292 SCC, Taren Cadian 1837 AO.

Moel Maes y Wern Goch 405m SH 714044

Nid *moel* 'bryn crwn' cywir ond cefnen, wedi ei enwi ar ôl y fferm.

Moel Heulen 403m SH 776082

Mae Heulen yn hen enw personol; heulen yw'r bachigyn unigol y gair *haul* 'heulwen, goleuni' yn hytrach na llygriad yr enw personol Heilyn. Rhaid nodi'r enw Coed Rhyd y Biswail cyfagos, yn SH 786074, mae'r gair biswail '*tom, tail*' yn rhoi synnwyr o ryd fudr. Oes yna gysylltiad felly tuag at enw'r bryn drwy'r geiriau *eulon, eulan* 'tom, cagl'.

Corlan Fraith 401m SN 631000

Yn gyffredinol, mae *corlan* 'ffald, lloc' yn derm lle mae ardal wedi'i hamgáu i gadw da byw. Fraith yw'r ffurf fenywaidd estynedig o *fraith* 'amryliw'. Mae yna nifer o olion cyn-hanesyddol ar ei lethrau ac ar y brig mae carnedd adfeiliedig gyda phwynt trig adfeiliedig. Ni wyddys union oedran y garnedd. Corlan fraith 1837 AO.

Mynydd Cymerau 400m SH 786116

Mae'r defnydd y *term* cymerau yn un addas iawn, sef lluosog y gair *cymer* 'man cyfarfod neu afonydd neu nentydd', ac fe welir sawl un ger fferm Cymerau. Mae cymer a hefyd cymerau yn digwydd yn aml mewn enwau yng Nghymru ac mae'n gysylltiedig â Llydaweg *kember* [a roddwyd yr enw'r ddinas Quimper], Gwyddeleg Canol *commar* 'man cyfarfod dyffrynnoedd, afonydd'.

Ffridd Llwydiarth 393m SH 796121

Ffridd 'porfa fynydd', benthyciad o'r Saesneg Canol *frith*, Hen Saesneg *fyrhoðe* 'coed, llechwedd coediog'. Llwydyrath 1209 Siarter Cymer.

Allt Lwyd 392m SH 614078

Allt 'uchder, clogwyn, llethr serth', Hen Gymraeg *alt* 'allt' + *llwyd* 'llwydwyn'; sydd yn gysylltiedig â Hen Gernyweg *luit*; Hen Lydaweg *loit*. Mae'r lliw *llwyd* yn amrywio o 'llwydwyn, dulwyd; gwelw; llwytygoch, brown'. Iralltlhuyt 1209 Siarter Cymer, Pen y Gorlan 1837 AO.

Mynydd Tymawr 390m SH 770075

Porfa mynydd y fferm Tymawr.

Mynydd Hendre Ddu 383m SH 803120

Tir mynydd fferm Hendre Ddu. Yr hendre 'trigfan sefydlog' oedd y man i lawr yn y dyffryn ble roedd y teulu a'i anifeiliaid yn treulio misoedd y gaeaf. Yr Hendre Ddu c.1700 Parochialia.

Bryn Brith 383m SH 664154

Bryn 'uwchdir' + brith 'brych, smotiog, amryliw' yn derm da ar gyfer tir cymysg ac felly yn un go gyffredin yn nhirlyn Cymru. Mae'r gair brith yn gysylltiedig â'r Llydaweg *breiz* 'amryliw' o'r Celtaidd **mrikta* 'smotiog'.

Mynydd Pen Lan 380m SH 793088

Pen Lan yw enw'r fferm, tyddyn bychan sydd dal yna.

Mynydd Fron Felen 380m SH 764075

Porfa mynydd y fferm Fron Felen; sef bron 'brig', tra bo'r elfen felen yn dangos y lleisiad lleol wrth dreiglo'r gair melyn.

Pared y Cefn Hir 380m SH 664154

Ar y mapiau cynnar yr Arolwg dyma'r enw ar hyd y gefnen hir, nawr mae o braidd allan o'i le, i'r Gogledd Ddwyrain o'r amddiffynfa cyn-hanesyddol. *Pared* 'mur, wal' + *cefn* 'cefnen + hir'. Gwelir, amddiffynfa hir a chymhleth yn dilyn y gefnen am tua 600m, sydd yn defnyddio'r creigiau naturiol

ar y ddau ochr i greu safle cadarn. Gair a fenthycwyd o'r Lladin *parēt-* yw pared, weithiau parwyd, ac fe'i gwelir weithiau yn enwau clogwyni yn Ffrainc a Sbaen fel *paret(e)*.

Coed Mawr 378m SH 815119

Coed 'llwyn(i)' + *mawr* 'eang', enw sy'n atgofiadol o'r coedwigoedd.

Y Grug 376m SH 809103

Planhigyn *gryg* 'myncog', *Calluna vulgaris*; neu, cyfeiriad at ardal grugog 'rhos, rhosdir'. Mae'r enw wedi ei wneud yn arbennig oherwydd y fannod 'Y', ond nawr ardal o goedwigoedd conwydd.

Mynydd y Foel 374m SH 802112

Y tebygrwydd yw bo'r ffurf a welir wedi datblygu drwy godi enw fferm neu dyddyn gydag enw fel 'Y Foel', ac yn hwyrach ymlaen mae enw'r fferm wedi trosglwyddo fel enw'r borfa fynyddig.

Mynydd Cefn Caer 358m SH 702033

Mae *cefn* 'trum, esgair' + *caer* 'cadarnle' yn enw sy'n rhoi synnwyr o safle amddiffynnol. Mae'r gair caer yn gysylltiedig â'r Gernyweg *ker* 'tref', o'r Frythoneg **kagro* 'anheddiad wedi ei gau'. Keven Caer 1603, Mynydd Cefn-caer 1837 AS.

Camlan 353m SH 849125

Mae'r *cam* 'crwm' yn cyfeirio at y *glan* 'ymyl afon, llechwedd, mynydd'; troad afon o gwmpas fferm Camlan Uchaf, neu lechwedd grom tybed. Mae cam yn elfen sy'n gysylltiedig â'r Gernyweg *cam*; Llydaweg *kam*; Hen Wyddeleg *cam* 'crwm' ac yn un cyffredin yn y tirwedd. Rhiw Pen-hafan 1887 yw'r enw a welir ar fap AO 6" a thir comin oedd y bryn ar un adeg.

Bryn Dinas 346m SO 646999

Bryn 'bryncyn' + *dinas* 'cadarnle' o'r Hen Gymraeg *din* 'amddiffynfa', Brythoneg/Gauleg **duno*. Mae yna nifer o weddillion cyn-hanesyddol ar y bryn, gyda chrug, carneddau, cistiau a tumulii; nid yw eu union nifer a'u lleoliad wedi'u diffinio eto.

Mynydd y Foel 342m SH 631022

Dyma'r enw ar fapiau'r AO yn 1837, nid oes enw arno heddiw.

Moel y Ffridd 342m SH 833118

Y ffridd yw rhan isa'r mynydd, gai'r benthyg o'r Saesneg Canol *frith*. Foel y Ffridd sydd ar fapiau AO cyfoes.

Mynydd Esgairneiriau 340m SH 789094

Esgairneirion oedd un cynnig ar yr enw. *Esgair* 'sbardun' sy'n rhedeg i lawr heibio'r fferm o'r un enw yw'r elfen gyntaf. Tybed os llygriad neu un ffurf lluosog y gair *anner*, *annair* 'heffer, treisiad' sydd yn yr ail elfen, yn hytrach na enw personol sy'n debyg i Aneirin; neu, *aneiriau* 'gwarth'? Esgeyrannered [Esgeyrannery] 1200 Cofnod Caernarfon, Esgeiraneryn 1209 Siarter Abaty Cymer, Escair aire c.1700 Parochialia, Mynydd Esgair-Aneurin 1887 AO 6".

Mynydd Cwmgerwyn 333m SH 807109

Cwm Gerwyn yw'r enw ar y fferm yn y dyffryn islaw; os nid yr enw personol Gerwyn sydd, y tebygrwydd yw mai; naill ai, *cerwyn* 'powlen, twb'; neu, y gair *gerwin* 'garw, llym; ofnadwy'. Y ffurf ar y mapiau AO 6" cynnar 1887 oedd Cwm Garwrhyn, sy'n tueddu i'n cyfeirio tuag at *garw* 'bras, anodd' + *rhyn* 'anhyblyg, garw' neu' yr elfen rhyn a welir yn y gair penrhyn, cymharer â Hen Wyddeleg *rind*, *rinn* 'pwynt, pig, copa, penrhyn'. Kinnygerhwyn 1209 Siarter Abaty Cymer.

Mynydd Crwper 333m SH 800068

Benthyciad o'r Saesneg Canol *croupere*, *crouper* 'pedrain, pen ôl'; yn atgof o ben ôl ceffyl tybed.

Craig Ysgiog 325m SH 684104

Mae'n debyg bod y bryn wedi'i enwi ar ôl nant Nant Ysgiog, sy'n llifo i lawr ei lethrau Deheuol. Ceir un lleoliad arall gyda'r enw Ysgiog yn Sir Frycheiniog, ar fap degwm a map AO 1837 rhoddwyd enw'r fferm hon fel Ysgoig. Ôl-ddodiad ansoddeiriol yw'r *-iog*, tra bod gan y gair *ysgo* ddau bosibilrwydd yma 'goleddf, gwyro'; neu, 'cam, crwca'. A yw'r naill ystyr neu'r llall yn cytuno gyda topograffeg y nant yn Nant Ysgiog. Gyferbyn â fferm Gwastadfryn, mae'r ffrwd (heb eu henwi ar fapiau'r AO) yn llifo i lawr mewn tro mawr; gan ddisgyn i'r Gogledd-orllewin i ddechrau, i droi'n raddol i lifo i'r De-orllewin.

Y Darren 324m SH 825078

Mae sawl ystyr i'r gair *tarren*, rhaid dewis rhwng 'bryncyn, bryn serth, llethr'.

Pen Moelyn 320m SH 670155

Bryn gyda *pen* 'copa' + *moelyn* 'noeth', gall hefyd dynodi person moel ddi-wallt.

Bryn Dinas 320m SO 642997

Nid oes *dinas* 'amddiffynfa' yna, ond fe welir carnau a thwmwlws. Fei enwir fel Mynydd Bychan 1837 AO.

Ffridd Cocyn 313m SH 625043

Dyma fryn gydag enw sy'n sicr yn adlewyrchu ei siâp. *Ffridd* 'rhostir, porfa fynydd garw' gyda ffurf fel tomen *cocyn* 'pentwr, pentwr, tas'.

Ffridd Rhyd y Biswail 312m SH 793068

Wedi ei enwi ar ôl hen dyddyn o'r enw Rhyd y Biswail, *rhyd* 'man croesi afon' + *biswail* 'tail'.

Mynydd Pant Coch 312m SH 781059

Wedi ei enwi ar ôl fferm Pant Coch.

Ffridd y Glyn 306m SH 816081

Mae'r gair ffridd yn dynodi y rhan isaf o borfa fynyddig sydd fel arfer wedi ei gau mewn gyda waliau cerrig. Benthyciad o'r Saesneg Canol *frith* 'i gau mewn'.

Llanfechan 304m SH 772056

Y tebygrwydd yw mai *llain* 'stribed, clwt (o dir)' + fechan sydd?

Craig y Merwydd 296m SH 645135

Ffurf llygredig y gair y gair *morwydd* 'merwydden, coed o'r tylwyth Morus'; ond, fe all fod yn enw personol hefyd, fel yn Merwydd fab Moridred.

Mynydd Rhiwerfa 288m SH 665067

Heddiw, mae'r mynydd wedi ei enwi ar y mapiau ar ôl fferm Rhiwerfa; tra bod yna enw arall ychydig i'r Gogledd sef Gamallt. Mae Gamallt, sef *cam* 'crwca' + *allt* 'llechwedd' yn enw addas oherwydd y troad mawr yn y llethr ar ochr ogleddol y bryn, a'r afon hefyd. Gamallt oedd yr unig enw ar y bryn i gyd ar fap ordnans 1837.

Y Foel Wyllt 288m SH 633046

Mae'n debyg bod y gair *gwyllt* 'ffyrnig' yn yr enw yn cyfeirio at ardal heb ei drin yn hytrach nag ystyron geiriadur eraill. Moel Craig Eryr oedd hen enw arall ar y bryn. 'Foel-wyllt 1837 AO.

Trefcaereinion 282m SH 830091

Mae'r enw yn rhoi *tref* 'trigfan' + *caer* 'amddiffynfa' + enw personol Einion; nid oes llawer o hoel o unrhyw drigfan nag amddiffynfa.

Craig y Castell 280m 6SH 93173 & Craig y Castell 252m SH 695157

Nid bryniau sy'n atgoffaol o safleoedd amddiffynnol, mae yna ddwy gaer amlwg ac maent yn o agos at ei gilydd. Castell Craig y Waun yw'r enw arall ar y copa uchaf o'r ddau. Mae'r ddau gyda waliau cerrig dwbwl a'r tebygrwydd yw bod y ddau o'r cyfnod Oes yr Haearn. Darganfuwyd torch aur ger Llyn Gwernan (SH 706160) ym 1823, roedd yn wialen droellog 107cm o hyd ac yn pwyso 248gram. Tybed os un o'r rhain oedd *cader* 'amddiffynfa' Idris?

Cefn Llwyd 279m SH 824076

Cefn 'cefnen' + *llwyd* 'lliw tywyll'; un gyda llethrau cysgodol.

Moel Ty'r Gawen 279m SH 623076

Y tebygrwydd yw *mai cawen* 'cleddyf lys' neu lygriad y gair *cawnen* 'cawnwellt, corswellt'; tŷ'r ac nid tyr sydd yn gywir yn y man. Tyddyn y Gawen 1647, Tir y Gawen 1683 a Tuergawen 1771 Llawysgrifau Peniarth, Foel Ty'r Gawen 1837 AO. Af fapiau cyfoes yr AO fe welir Foel Tyr Gawen.

Tyddynbriddell 270m SO 650983

Enw'r fferm yn uniongyrchol; *tyddyn* 'ty gyda daliad bach o dir' + *priddell* 'talp o bridd, pridd caled'.

Mynydd Llwyn Gwern 270m SH 767047

Porfa mynydd y fferm Llwyn-gwern [*llwyn* 'gwigfa, gwascodfa' + *gwern* 'alnus'].

Mynydd Gwyn 269m SH 834090

Heblaw lliw fel yr eira, fe all *gwyn* gyfeirio at sawl synnwyr arall, sef 'can, llwydwyn, gwelw; golau'. Oherwydd yr ochr heulog o'r enw Llechwedd Gwyn. Mynydd-gwyn 1836 AO.

Mynydd Glandulas SH 264m 761040

Enw porfa fynydd y fferm Glandulas.

Y Foel Goch 263m SH 727023

Unwaith eto y cysylltiad cyffredin *moel* 'bryn' + *coch* 'cochlyd'. Moel Goch 1837 AO.

Y Foel Lwyd 261m SH 627974

Ffurf treiglledig *moel* 'bryn, bryncyn llwm' + *llwyd* 'lliw tywyll'; ond mewn rhai llefydd fe all gyfeirio at liw cochlwyd 'brown'.

Cefn Llandybo 259m SH 834098

Nid oes *llan* 'eglwys' ar y cefn 'cefnen, bryn'; ond, fe all yr ystyr gwreiddiol y gair *llan* 'lle caeedig' fod yn bresennol. Ffurf amrywiol ar yr enw personol Dyfan yw Dybo, yn gysylltiedig â'r Wyddeleg *Dubán*.

Mynydd y Llyn 256m SH 656986

Llyn Barfog yw'r llyn cyfagos.

Mynydd Graig Wen 254m SH 615116

Mae lloc cyn-hanesyddol i'w weld ar y brig, ni fyddai'r rhain o reidrwydd yn safleoedd amddiffynnol, er y gellid eu hystyried yn debyg. Mewn sawl man ceir lloc fel llefydd i gasglu da byw gyda'r nos, neu ar adegau o ymosodiad gan eraill.

Moel Eirin 253m SH 740046

Y tebygrwydd yw mai llygriad ar yr enw personol Eurin, Euryn sydd yn hytrach na phresenoldeb coed *eirin* 'eirin glasddu, aeron'. esgair valyrin 1550/1 & Eskair velyrin 1560/1 Cofnodion Esgair/Pantperthyn.

Craig yr Aderyn 233m SH 640544

Heblaw man caregog ble mae adar yn nythu neu ffurf sy'n debyg i aderyn yn ymestyn ei adenai; mae yna gopa isel, ond amlwg iawn. Safle da i'r amddiffynfa Oes yr Haearn sydd i'w weld arno. Craig Aderyn 1837 AO.

Y Graig Fach-goch 214m SH 608013

Fach-goch yw enw'r fferm, yn (SH 607016), tra bo'r graig ar frig y bryn. *Bach* 'cilfach, congl, cornel, tro' + *coch* 'cochlyd'; yn hytrach na *bach* 'bychan' + *coch*.

Braich y Golwydd 200m SH 709012

Mae'r term *braich* 'cefnen' yn gyffredin led Cymru; y tebygrwydd yw mai henffurf coel, cōl 'postyn' + (g)wydd 'coed, pren', benthyciad o'r Gwyddeleg *cuaille* 'postyn, polyn'; yn hytrach na colwydd, sef lluosog y gair colwydden 'gwddf hydd' sydd. Neu, llygriad y gair collwydd 'coed collen', Hen Gernyweg *colwiden* 'coed coll'. Braich-y-golwydd 1837 AO.

Craig y Barcut 198m SH 606003

Craig 'clogwyn' ble ceir barcud, barcut 'barcud coch, boncath'. Mae'r Barcud Coch Ewropeaidd: *Milvus milvus* yn weddol gyffredin yn yr ardal unwaith eto.

Cefn y Gader 192m SH 824062

Unwaith eto defnydd o'r sillafiad cader sydd i'w weld yn yr enw. Gall yr enw gyfeirio at y ffurf gynhennus **cader* 'cadarnle', oherwydd y siawns y bod rhyw fath o safle amddiffynnol wedi ei leoli yma ar un adeg; neu, ei fod yn edrych yn debyg i ble ddylai safle amddiffynnol fod wedi ei leoli. Mae pen y bryn uwchlaw llethrau serth iawn ac yn edrych allan dros ddyffryn Dyfi, ble roedd nifer o lwybrau hanesyddol bwysig yn cwrdd. Fodd bynnag, gellid dadlau bod llygredd y gair cadair 'sedd' neu gadair 'annedd' wedi digwydd yma, gan fod pant neu ddyffryn bas yn ymestyn i fyny at gopa'r cefn 'cefnen', y nodwedd ddirweddol sy'n ffurfio'r sedd tybed; hefyd, Cefn y Gader yw enw'r fferm.

Pen y Clipiau 180m SH 845106

Lluosog y gair *clip* 'allt serth'; benthyciad o'r Saesneg *clip* ac yn gyfatebol i'r Almaeneg *klippe* 'clogwyn'. Pen-y-clipiau 1836 AO. Cymharer a Clipiau, Llanaelhaearn.

Tâl y Gareg 178m SH 574035

Dyma'r enw ar y bryn isel ond amlwg i'r Gogledd o Dywyn, a gwelir yr enw ar y map Ordnans yn 1887. Nid oedd unrhyw gofnod ar y map cynnar 1837, ond Tâl y Cerrig oedd enw'r fferm. Mae'r map 1887 yn cofnodi'r copa fel Beacon Tâl-y-gareg, ac felly datblygodd yr enw Saesneg Beacon Hill i'r bryn. Talegarrek 1308, Tallygarreg 1610 Llawysgrifau Peniarth.

Y Foel Caethle 169m SO 607987

Fe welir amddiffynfa fach o'r Oes Haearn ar y copa; enw'r fferm islaw yw Caethle. Catheleigh 1509 SCC, Mowl Caethle 1837 AO.